**Gan Emyr George, Cyfarwyddwr Cyswllt, Cymwysterau Cymru**

# Mae'r canlyniadau wedi cyrraedd ...

Mae tymor arholiadau arall yn dirwyn i ben, ac wrth i fyfyrwyr edrych ymlaen at eu camau nesaf ym myd addysg a byd gwaith, mae'n bryd i ni fyfyrio ar yr wythnosau diwethaf.

Bu'n flwyddyn brysurach nag arfer o ran cymwysterau. Dyfarnwyd cymwysterau TGAU a Safon Uwch newydd sbon, a gynlluniwyd yn benodol i Gymru, am y tro cyntaf mewn nifer o bynciau. Cafodd fersiynau newydd o gymhwyster Bagloriaeth Cymru hefyd eu dyfarnu am y tro cyntaf. Gwelwyd newidiadau mawr i gymysgedd  y myfyrwyr a oedd yn sefyll arholiadau TGAU. Roedd hyn yn golygu bod y canlyniadau cyffredinol yn wahanol i flynyddoedd blaenorol. Dyfarnwyd cymwysterau TGAU newydd yng Nghymru gan ddefnyddio'r graddau cyfarwydd, sef A* i G. Ond yn Lloegr, dyfarnwyd cymwysterau TGAU gan ddefnyddio graddau newydd 9 i 1, sy'n ei gwneud hi'n anodd cymharu canlyniadau rhwng y ddwy wlad.

Gyda chymaint yn digwydd, nid yw'r cyfryngau wedi bod yn brin o bethau i'w trafod. A rhwng y dadleuon a'r penawdau, does dim rhyfedd os ydych wedi drysu ynglŷn â beth mae hyn i gyd yn ei olygu.

Y peth pwysicaf hoffem ei rannu yw rhoi sicrwydd i fyfyrwyr, rhieni ac athrawon bod canlyniadau eleni wedi'u dyfarnu'n deg. Rydym wedi cynnal gwaith monitro helaeth ar fyrddau arholi drwy gydol y cyfnod arholiadau. Rydym yn hyderus nad oedd y myfyrwyr a oedd wedi sefyll arholiadau eleni o dan unrhyw anfantais am mai nhw oedd y garfan gyntaf i astudio'r cymwysterau newydd. Rydym hefyd yn fodlon bod safonau'r cymwysterau newydd yn debyg i'r rheini a gymerwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Mae llawer o benawdau wedi canolbwyntio ar y gostyngiad yng nghanlyniadau cymwysterau TGAU eleni. Ond mae'r ffigurau a nodwyd yn cynnwys canlyniadau ar gyfer y nifer mwyaf erioed o fyfyrwyr Blwyddyn 10 a oedd wedi sefyll eu harholiadau ar ddechrau'r haf. Nid ydynt yn cynnwys cyflawniadau myfyrwyr Blwyddyn 11 a allai fod wedi sefyll rhai o'u harholiadau TGAU yn gynharach. Ar ôl ystyried y ffactorau hyn, mae canlyniadau cymwysterau TGAU ar gyfer myfyrwyr 16 oed yn rhoi darlun mwy sefydlog o gymharu â'r blynyddoedd diwethaf.

Mae'r ffaith bod myfyrwyr wedi sefyll arholiadau TGAU yn gynnar wedi peri llawer o drafodaeth eleni, gyda phobl yn gofyn pam bod cymaint o ysgolion yn cofrestru eu disgyblion ar gyfer arholiadau yn gynnar. Nid tuedd newydd yw hon wrth gwrs, ond yn arfer sydd wedi dod yn fwyfwy cyffredin dros y blynyddoedd diwethaf. Eleni, gwelwyd cynnydd annisgwyl yn nifer y myfyrwyr a oedd wedi sefyll eu harholiadau yn gynnar. Gwnaeth tua 21,000 o fyfyrwyr Blwyddyn 10 sefyll eu cymhwyster TGAU Saesneg Iaith yn gynnar; mae hynny tua 65% o'r holl fyfyrwyr Blwyddyn 10 yng Nghymru. Gwelwyd cynnydd sylweddol hefyd yn nifer y myfyrwyr Blwyddyn 10 a oedd yn cael eu cofrestru ar gyfer y cymwysterau TGAU Mathemateg newydd a chymhwyster TGAU Cymraeg Iaith.

Mae'r cymwysterau TGAU wedi denu cryn dipyn o sylw. Efallai nad yw hynny'n syndod, o ystyried y newidiadau gwahanol sy'n cael eu cyflwyno yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ar yr un pryd. Er mwyn eich helpu i wneud synnwyr o bethau, rydym wedi nodi 10 o'r prif bethau y mae angen i chi eu gwybod am y cymwysterau TGAU newydd yng Nghymru.

1. Mae cymwysterau TGAU yn cael eu diwygio ar wahân yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.
2. Er bod rhai gwahaniaethau o ran cynnwys ac asesu, mae gwerth cymwysterau TGAU yr un fath lle bynnag y cânt eu hastudio – mae pob cymhwyster TGAU a gynigir yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yr un maint, caiff ei astudio gan ddisgyblion o'r un ystod o allu ac mae'n asesu deilliannau tebyg.
3. Mae safonau cymwysterau TGAU yn gyffredin ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.  Mae'r rheoleiddwyr ym mhob gwlad wedi ymrwymo i sicrhau nad yw'n anoddach, nac yn haws, i ennill gradd benodol nag y bu mewn blynyddoedd blaenorol.
4. Yng Nghymru, mae cynnwys pynciau TGAU wedi cael ei fireinio ac mae asesiadau wedi'u hatgyfnerthu.
5. Mae'r rhan fwyaf o bynciau yn cael eu hasesu drwy arholiadau erbyn hyn – mae gwaith cwrs bellach yn cael ei ddefnyddio cyn lleied â phosib.

6. Mae mynediad cynnar wedi dylanwadu ar ganlyniadau arholiadau'r haf hwn yn sylweddol – gyda mwy o ddisgyblion 15 oed yn sefyll arholiadau yn gynnar a llai o ddisgyblion 16 oed sy'n perfformio'n dda yn dychwelyd i wella eu graddau blaenorol.
7. Mae Cymwysterau Cymru yn ymchwilio i'r rhesymau pam bod ysgolion wedi cofrestru cynifer o ddisgyblion yn gynnar, a byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ein canfyddiadau ym mis Hydref.
8. Mae Cymru wedi penderfynu cadw graddau cyfarwydd A* i G.
9. Mae graddau A ac A* yn cynrychioli'r un cyrhaeddiad â graddau newydd 7, 8 a 9 yn Lloegr. Ni ellir dweud bod gradd 9 yn Lloegr yn anoddach i'w chyflawni nag A* gan ei bod yn gwobrwyo disgyblion o'r un gallu.
10. Mae Prifysgolion a Cholegau yn ymwybodol o'r gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr ac ni fydd disgyblion o dan anfantais.

I gael rhagor o wybodaeth am ganlyniadau cymwysterau TGAU a Safon Uwch, ewch i wefan Cymwysterau Cymru lle gallwch gael dadansoddiadau manwl a ffeithluniau defnyddiol.